***Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.***

# Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant - Dysgwyr ac Ymwelwyr Grŵp CCAF

## Ymrwymiad

Fel cyflogwr a darparwr addysg a hyfforddiant, bydd Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau sy'n bodloni anghenion ein cymunedau drwy hyrwyddo cynhwysiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mae'r Grŵp yn ymdrechu i herio gwahaniaethu a goresgyn yr anfanteision sy'n bodoli mewn cymdeithas ac sydd wedi arwain at rai grwpiau yn cael eu trin yn llai ffafriol nag eraill. Mae gan y Grŵp gyfrifoldeb i ddarparu cyfleoedd i unigolion gyflawni eu potensial mewn amgylchedd diogel sy'n rhydd rhag gwahaniaethu. Mae'r Grŵp hefyd yn gorfod sicrhau ei fod yn gynrychioladol o'r gymuned mae'n ei gwasanaethu a'i fod yn bodloni anghenion y gymuned.

Mae'r Grŵp yn ymrwymedig i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal mewn perthynas â rhywedd, oedran, anabledd, hil, crefydd a chredo, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas/partneriaeth sifil.

Mae gan yr holl reolwyr, staff, dysgwyr, contractwyr, ymwelwyr ac eraill sydd ynghlwm â'r Grŵp, neu'n gysylltiedig ag ef, gyfrifoldeb i ymddwyn mewn modd sy'n parchu a chefnogi ethos ein Grŵp cynhwysol a'n hymrwymiad i gyfleoedd teg ar gyfer dysgu a chyflogaeth. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cyfeirio at unigolion pan fyddant y tu mewn ac oddi allan i'n heiddo ac mae'n cynnwys defnyddio'r rhyngrwyd a dyfeisiau cyfathrebu electronig fel e-bost, ffonau symudol, consolau gemau, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a.y.y.b., ni waeth pwy sy'n berchen ar y ddyfais gyfathrebu.

## Cwmpas a Diben y Polisi

Mae'r Grŵp yn derbyn o wirfodd ei brif gyfrifoldebau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac ymddygiad anghyfreithlon arall.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal drwy gael gwared ar anfanteision neu eu lleihau, cymryd camau i fodloni anghenion, ac annog cyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus lle mae cyfranogiad yn anghymesur o isel.
- Mabwysiadu perthnasoedd da drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.

Mae **Deddf Cydraddoldeb, 2010**, yn cydnabod bod anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn dal i fodoli ac yn cyflwyno rhagor o hawliau a goblygiadau newydd i gyrff cyhoeddus.



| | |
|---|---|
| **Adolygiad Rhif:** | 3 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf** | 19/06/2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 19/06/2026 |

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp – Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** i gyflawni eu **potensial** wrth iddynt ddysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.
- Ymrwymiad i **fodel cymdeithasol anabledd** lle'r ydym yn edrych ar gael gwared ar y rhwystrau y gallai rhywun eu hwynebu oherwydd ei anabledd neu anhawster dysgu er mwyn hyrwyddo cynhwysiant.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr ar bob rhaglen ddysgu ni waeth beth fo'i ddull neu leoliad astudio.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'n holl sefydliadau partner, rhanddeiliaid ac etholfraint.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ymwelwyr i'r Grŵp.

**Diffiniadau**

| | |
|---|---|
| **Cydraddoldeb** | Mae cydraddoldeb yn golygu sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad, ymdriniaeth, canlyniadau a thraweffaith. Y mae hefyd yn gred na ddylai unrhyw un gael llai o gyfleoedd bywyd oherwydd eu cefndir, hunaniaeth bersonol neu brofiad.<br><br>Mae cyflawni cydraddoldeb o fewn canlyniadau yn gofyn a, adnabod y rhwystrau a'r rhagfarnau a chymryd camau bwriadus i orchfygu anghydraddoldebau penodol, gwahaniaethu, anfanteision ac ymyleiddio sy'n rhan o brofiad rhai grwpiau ac unigolion penodol gan gynnwys rhai y caiff eu nodweddion eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| **Amrywiaeth** | Amrywiaeth yw'r gwahaniaethau mewn lliw, ethnigrwydd, gallu, oedran, rhywedd, cred, diddordebau, (dosbarth) economaidd-gymdeithasol, statws priodasol neu bartneriaeth, cyfeiriadedd rhywiol, cefndir daearyddol, academaidd/proffesiynol, barn, cefndiroedd, meddylfryd, profiadau a nifer o nodweddion eraill. Mae amrywiaeth yn cydnabod bod pawb yn wahanol mewn amrywiaeth o ffyrdd gweledol ac anweledol, ac y dylid cydnabod, parchu, gwerthfawrogi, hyrwyddo a dathlu'r gwahaniaethau hynny. |
| **cynhwysiant** | Cynhwysiant yw'r arfer o gynnwys pobl mewn ffordd sy'n deg i bawb, sy'n gwerthfawrogi gwahaniaethau pawb, ac sy'n grymuso ac yn galluogi pob person i fod yn hwy eu hunain ac i gyflawni eu potensial yn llawn ac i ffynnu. Mae'n creu ymdeimlad o berthyn a chyfranogi mewn ffordd ragweithiol. |

## Datganiadau Polisi

Nod y polisi hwn yw:



| | |
|---|---|
| **Adolygiad Rhif:** | 3 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf** | 19/06/2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 19/06/2026 |

- **Sicrhau bod gweithdrefnau cysylltiedig** yn cael eu sefydlu i sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei roi ar waith ar draws y Grŵp. Bydd hyn yn cynnwys mecanwaith i sicrhau bod egwyddorion y polisi hwn yn cael eu hymgorffori yn holl bolisïau'r Grŵp.

    - **Adnabod staff cyfrifol** - bydd hyn yn cynnwys adnabod uwch reolwr sydd â chyfrifoldeb strategol ac unigolion sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd materion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael eu hadrodd i'r Llywodraethwyr drwy'r Bwrdd Ansawdd Safonau. Yn ogystal, bydd strwythur pwyllgor priodol i sicrhau ymwneud effeithiol y prif randdeiliaid.

    - **Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol** fel ffordd o wella profiad staff a dysgwyr a symud ein Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn ei flaen drwy gyflawni unrhyw nodau neu dargedau. Bydd bydd y cynnydd a wneir mewn perthynas â'r cynllun hwn yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol.

    - **Ymgysylltu** gyda rhanddeiliaid sy'n gynrychioladol o'r holl nodweddion gwarchodedig wrth osod ac adolygu ein hamcanion cydraddoldeb.

    - **Neilltuo adnoddau priodol** i gefnogi gyda gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn.

    - **Monitro a chyhoeddi data perthnasol** sy'n gysylltiedig gyda materion yn ymwneud â chydraddoldeb o fewn y Grŵp fel rhan o'n Dyletswydd Sector Cyhoeddus, yn flynyddol. Bydd y data hwn yn cael ei ddadansoddi'n llawn, a bydd cynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu er mwyn goresgyn unrhyw batrymau o dan-gynrychioli, tan-berfformio neu anfodlonrwydd.

    - **Ystyried mesurau camau gweithredu positif** a ganiateir yn ôl y gyfraith er mwyn unioni anfanteision mewn cyflogaeth neu ddarpariaeth addysg sy'n cael eu datgelu drwy fonitro.

    - **Cynnal asesiadau traweffaith** er mwyn archwilio polisïau, gweithdrefnau ac arferion er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i wreiddio o fewn y polisïau hyn ac nad oes unrhyw draweffaith negyddol yn erbyn y nodweddion gwarchodedig. Bydd targedau a osodir yn ystod cyfarfodydd EIA yn cael eu defnyddio i leihau traweffaith gwahaniaethol neu rannu traweffaith bositif.

    - **Sicrhau bod rhaglen** yn cael ei rhoi ar waith er mwyn hyrwyddo amrywiaeth a meithrin perthnasoedd da ar draws y Grŵp.

    - **Datblygu deunyddiau priodol** i **godi ymwybyddiaeth** o gyfleoedd cyfartal a chynhwysiant ar draws y Grŵp er mwyn sicrhau bod yr holl staff, myfyrwyr, ymwelwyr a rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r materion sy'n gysylltiedig â hwy a beth yw eu cyfrifoldebau.

    - Cymryd camau er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau wedi'u sefydlu fel bod **honiadau o wahaniaethu a bwlio ac aflonyddu** yn cael eu delio â hwy yn syth, yn cael eu hymchwilio'n llawn ac yn amserol, a bod unigolion yn cael eu cefnogi drwy gydol y broses.

Yn ogystal, fel **darparwr addysg a hyfforddiant** bydd y Grŵp yn gwneud pob ymdrech i:

- Gynhyrchu deunyddiau sy'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn ddealladwy.

- Gweithredu trefn derbyn fydd yn rhoi cyngor ac arweiniad i ddarpar fyfyrwyr, gan roi ystyriaeth i addasiadau rhesymol, beth bynnag fo'u hanghenion, a chan hyrwyddo cynhwysiant a gwella cysylltiadau gyda sefydliadau y bu i'r myfyrwyr drosglwyddo ohonynt atom ni.

- Datblygu deunyddiau a chyfleoedd i sicrhau bod ein dysgwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a datblygu ymddygiadau yn unol ag egwyddorion cynhwysiant. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth o wahaniaethau pobl ac yn ffordd ragweithiol o gael gwared ar unrhyw rwystrau sy'n deillio o ddiffyg dealltwriaeth ynghylch y gwahaniaethau hyn.

- Sicrhau bod pob myfyriwr yn derbyn y gefnogaeth maent ei angen er mwyn symud ymlaen.

- Meithrin arferion cynhwysol o addysgu a dysgu ar gyfer yr holl ddysgwyr.

- Sicrhau bod cyfleusterau yn hyblyg.

- Bod â gweithdrefn ar gyfer delio gyda chwynion swyddogol sy'n berthnasol i gyfleoedd cyfartal.

Byddwn yn sicrhau bod pob dysgwr, ar bob lefel a math o ddarpariaeth, yn cael ei gyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwylio darpariaeth, safonau, disgwyliadau neu gywiro, megis corff dyfarnu, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu Swyddfa'r Dyfarnwyr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn).

**Datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae CCAF yn croesawu dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) cyn belled â'n bod yn gallu bodloni eu hanghenion yn rhesymol ac yn gallu cynnig y gefnogaeth maent ei hangen (yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg Cymru 2018). Caiff anghenion dysgu ychwanegol eu diffinio yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg Cymru 2018 a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol fel:

1. Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo ef neu hi anhawster dysgu neu anabledd (p'un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

2. Mae gan blentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson dros yr oedran hwnnw anhawster neu anabledd dysgu os yw ef neu hi

a. yn cael anhawster sy'n sylweddol yn fwy wrth ddysgu nag sydd gan y rhan fwyaf o rai eraill o'r un oedran, neu

b. mae ganddynt anabledd fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 sy'n eu rhwystro neu'n amharu arno ef neu hi mewn unrhyw ffordd rhag gallu defnyddio'r cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath sy'n cael ei ddarparu'n gyffredinol i eraill o'r un oedran mewn ysgol gynnal prif ffrwd, neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

3. Mae gan blentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson dros yr oedran hwnnw anhawster neu anabledd dysgu os yw ef neu hi yn, neu'n debygol fod yn dod o dan isadran (2) pan maent o oedran ysgol gorfodol pe na bai unrhyw ddarpariaeth dysgu ychwanegol yn cael ei chynnig.

4. Nid oes gan berson anhawster neu anabledd dysgu dim ond oherwydd bod yr iaith (neu ffurf ar iaith) y bydd ef neu hi yn cael eu dysgu yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael ei defnyddio neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref.

Mae Grŵp CCAF yn gyfrifol am sicrhau bod dyletswyddau cyfreithiol a chytundebol y colegau ar gyfer ADY yn cael eu rheoli'n effeithiol. Bydd dysgwyr ag ADY yn cael eu cefnogi drwy ddarpariaeth dysgu ychwanegol (ALP) cyn belled ag y bo modd i'r coleg ei ddarparu'n rhesymol er mwyn bodloni eu hanghenion. Mae'r holl staff o fewn Grŵp CCAF yn rhannu'r cyfrifoldeb dros gefnogi dysgwyr gyda ADY a rhoi cynlluniau cefnogi dysgwyr ar waith, mewn cydweithrediad gyda'r tîm Dysgu Cynhwysol. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn gwneud y coleg yn ymwybodol o unrhyw anghenion dysgu ychwanegol ac os oes ganddynt Gynllun Dysgu Unigol ar y cyfle cyntaf posib. Mae gan ddysgwyr gyfle i ddatgelu ADY wrth ymgeisio, yn ystod cofrestru a thrwy gydol eu cyfnod yn y coleg. Mae yna swyddogion penodol o fewn y tîm Dysgu Cynhwysol fydd yn eu cefnogi i allu trosglwyddo'n esmwyth o'r ysgol i'r coleg. Mae'r tîm Dysgu Cynhwysol yn gweithio gyda'r dysgwr, eu teuluoedd, cydweithwyr yn Grŵp CCAF ac asiantaethau allanol er mwyn adnabod anghenion o ran cefnogaeth a sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu boddhau. Bydd achosion o ADY sydd newydd eu hadnabod yn cael eu cyfeirio at Banel Cynhwysiant y Coleg ac yn cael eu rheoli yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018.

**Nodau Grŵp CCAF ar gyfer Cefnogaeth ADY:**

- Adnabod a chefnogi anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr drwy gydol eu hamser gyda Grŵp CCAF;
- Cydweithredu gyda gweithwyr, rhieni/gwarcheidwaid ac asiantaethau allanol er mwyn sicrhau bod bob dysgwr gydag ADY o fewn Grŵp CCAF yn cael eu cefnogi'n effeithiol;
- Hyrwyddo arfer cynhwysol sy'n sicrhau bod gan bob dysgwr, waeth beth fo eu ADY, fynediad i'r cwricwlwm a phrofiad Grŵp CCAF;
- Ymgymryd â dull coleg cyfan tuag at ADY, gan gadw at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, 2018 a'r canllawiau a amlinellir yn y Cod (2021); a
- Pharhau i ddatblygu hyfforddiant i weithwyr er mwyn cefnogi'r uchod.

## Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig, gan gynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Monitro ac ymateb i ddata ansawdd a pherfformiad sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Defnyddio'r dadansoddiad hwn o ddata i fod yn sail i gynllunio ar gyfer y dyfodol i wella cynrychiolaeth, cyfranogiad a llwyddiant grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac sy'n tangyflawni a herio ystrydebau.
- Sicrhau cyllideb ddigonol ar gyfer gweithgareddau datblygiad proffesiynol.
- Sicrhau cyllideb ddigonol ar gyfer adnoddau sy'n cefnogi'r polisi hwn.
- Trin unrhyw ffurf ar wahaniaethu, aflonyddu, creu dioddefwyr, neu radicaliaeth a weithredir gan unigolyn fel mater ar gyfer camau disgyblu posib.
-

Mae'r staff Ansawdd Uwch yn gyfrifol am:

- Gadw'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn gyfredol.
- Darparu hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth briodol i staff i sicrhau y gallant ddilyn y polisi.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i fod yn sail i arferion ac i'w gwella.

Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:

- Weithredu yn unol â'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Delio gyda honiadau o wahaniaethu, aflonyddu a thargedu dioddefwyr mewn modd sensitif, ac i ymchwilio'n deg ac yn drwyadl.
- Sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu mewnosod yn rhan o bob agwedd o'n rhaglenni.
- Sicrhau bod dysgu yn digwydd mewn amgylchedd cefnogol, sy'n rhydd o wahaniaethu neu aflonyddu, gan hyrwyddo Gwerthoedd Prydeinig.
- Arwain drwy esiampl.
- Helpu dysgwyr i wella eu harferion cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol perthnasol a manteisio ar y cyfleoedd sy'n agored iddynt ar gyfer datblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae ein holl ddysgwyr yn gyfrifol am:

- Drin dysgwyr eraill, staff a rhanddeiliaid gydag urddas a pharch.
- Peidio â gwneud unrhyw beth fyddai'n gwahaniaethu yn erbyn eraill neu'n aflonyddu arnynt oherwydd eu hil, rhywedd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, cefndir personol neu amgylchiadau.
- Adrodd am unrhyw fwlio neu aflonyddu.
- Mynychu digwyddiadau gwybodaeth fel rhan o'r broses gynefino er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'r goblygiadau sy'n berthnasol iddynt hwy.
- Gweithredu yn unol â'r polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig.

**Deddfwriaeth ac Arweiniad**

Deddf Cydraddoldeb 2010
Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, 2018
Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol, 2021

**Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Yn unol â gweithdrefnau'r Grŵp, ysgrifennwyd y polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

**Safonau'r Gymraeg**

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r cyfrifoldebau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn unol â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg ac o ganlyniad yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

**Cyfeiriadau**

Mae dolen ar gael i'n holl bolisïau a gweithdrefnau:

**Cyfathrebu a Storio**

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnrwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

**Geirfa**

Dim

**Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu**

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo:** | **19eg Mehefin 2024** | **Rheolwr Cyfrifol:** | **Uwch Bennaeth Taith y Dysgwr** |
| **Cymeradwywyd gan:** | **Y Prif Fwrdd** | **Arweinydd Gweithredol:** | **Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu** |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | **19eg Mehefin 2026** | **Hygyrch i Fyfyrwyr:** | **Ydy** |



| | |
|---|---|
| **Adolygiad Rhif:** | 3 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf** | 19/06/2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 19/06/2026 |